



Mrs Katharine Evan-Hughes  
Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion  
Cyngor Sir Penfro  
Neuadd y Sir  
Hwlfordd  
SA61 1TP

Ein Cyf: qA1197852

1 Medi 2016

Annwyl

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013 – CYNNIG I WNEUD NEWIDIADAU A REOLEIDDIR I YSGOL BRO GWAUN DRWY DDOD Â'R DDARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH I BEN, LLEIHAU NIFER Y DISGYBLION A SEFYDLU DARPARIAETH AR GYFER ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG**

1. Mae Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru, wedi ystyried cynnig Cyngor Sir Penfro (yr Awdurdod Lleol) i ddod â'r ddarpariaeth chweched dosbarth i ben, lleihau nifer y disgyblion a sefydlu darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn Ysgol Bro Gwaun. Mae'n rhaid i gynnig i ddod â'r ddarpariaeth chweched dosbarth i ben mewn ysgolion a gynhelir gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ("Deddf 2013"). Mae Gweinidogion Cymru'n cyflawni eu swyddogaethau i ad-drefnu ysgolion yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ("y Cod") a wnaed o dan Ddeddf 2013. Pan fydd angen i Weinidogion Cymru ystyried cynnigion, rhaid iddynt benderfynu ar eu cymeradwyo, eu gwrthod neu eu cymeradwyo gydag addasiadau. Penderfynodd y cyn-Weinidog fod y cynnig i gau Ysgol Dewi Sant, Ysgol Bro Dewi - ysgol wirfoddol a gynhelir gan yr Eglwys yng Nghymru, ac Ysgol Gymunedol Solfach a sefydlu ysgol newydd ar gyfer plant 3-16 oed, a honno'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru, yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. Felly, mae'r cynnigion wedi'u hystyried ar y cyd.
2. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn imi ddweud ei bod wedi ystyried y ddogfen ymgynghori, yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, cyngor gan Estyn, a gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol at ddibenion ystyried y ffactorau perthnasol a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion.
3. Wrth arfer ei phwerau o dan Adran 50 o Ddeddf 2013, mae'r Gweinidog wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

4. Mae paragraffau 1.3 i 1.14 o'r Cod yn amlinellu'r ffactorau y dylid eu hystyried gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau er mwyn penderfynu ar gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion. Mae'r ffactorau perthnasol wedi'u nodi isod, ac fe'u dilynr gan ddadansoddiad sy'n ystyried i ba raddau y mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod y ffactorau wedi'u "bodloni".

## **ANSAWDD A SAFONAU YM MAES ADDYSG**

### **Deilliannau (safonau a llesiant)**

5. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn ei bod yn rhesymol tybio y bydd yr amrywiaeth ehangach o gyrсияu a'r dosbarthiadau mwy, hyfwr ac ysbrydoledig a fydd ar gael yn y ganolfan chweched dosbarth arfaethedig yng Ngholeg Sir Benfro, o fudd i ddysgwyr ôl-16 oed, ac y byddent yn cefnogi deilliannau da ar gyfer cyfnod allweddol 5. Mae'n nodi bod sylwadau a ddarparwyd gan Estyn yn ystod yr ymgynghoriad yn dangos eu bod o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi cyflwyno achos cryf o blaid ad-drefnu'r ddarpariaeth chweched dosbarth.
6. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn nad oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd cael gwared ar chweched dosbarth Ysgol Bro Gwaun yn cael effaith andwyol ar safon ac ansawdd addysg 11-16 oed yr ysgol. Mae'n cytuno â'r awdurdod lleol y bydd yr ysgol yn gallu canolbwyntio ar godi safonau yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn sgil cael gwared ar gyfnod allweddol 5.
7. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y byddai dosbarthiadau lloeren Ysgol Arbennig Portfield a Chanolfan Adnoddau Dysgu i ddisgyblion ag anghenion dysgu cymhleth yn cael eu sefydlu yn Ysgol Bro Gwaun fel rhan o'r cynnig. Mae'n croesawu'r ffaith y bydd y cyfleusterau hyn yn sicrhau eu bod yn haws i ddisgyblion yn ardal Abergwaun sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ddefnyddio'r cyfleusterau hyn, ac y bydd yn lleihau'r amser teithio iddynt. Mae cydleoiliad y cyfleusterau hyn yn debygol o annog gweithwyr arbenigol proffesiynol i gyfnewid arferion da, a allai hyrwyddo deilliannau gwell yn y pen draw.
8. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno ag Estyn a roddodd wybod eu bod o'r farn y bydd y cynnig yn debygol o wella safonau a deilliannau disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a chymhleth, a'i fod man lleiaf yn debygol o gynnal y safonau a'r deilliannau ar gyfer disgyblion cyn-16 ac ôl-16.

### **Y ddarpariaeth (profiadau dysgu, addysgu, gofal, cymorth a chyfarwyddyd, a'r amgylchedd dysgu)**

9. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn na ddylai'r cynnig effeithio ar allu Ysgol Bro Gwaun i barhau i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer cyfnodau 3 a 4, er ei bod yn debyg y bydd angen lleihau nifer y staff.
10. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn ei bod yn rhesymol tybio y bydd profiadau dysgu disgyblion ôl-16 oed yn gwella drwy greu'r ganolfan chweched dosbarth a fydd yn cynnig nifer gynyddol o opsiynau mewn un lleoliad.
11. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod rhai pryderon wedi'u codi yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn â'r posibilrwydd o ddiffyg gofal bugeiliol yn y ganolfan chweched dosbarth o'i gymharu â'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn Ysgol Bro Gwaun. Fodd bynnag, fe'i sicrhawyd o wybod pan gynhaliodd Estyn arolygiad o

Goleg Sir Benfro fod gan y coleg strategaeth iechyd a llesiant gynhwysfawr, gan gynnwys ystod eang o gymorth a gwasanaethau a phartneriaethau amlasiantaeth i gefnogi'r strategaeth. Mae o'r farn ei bod yn rhesymol tybio y bydd gofal a chymorth yn cael eu cynnig i'r ganolfan chweched dosbarth, ac mae'n fodlon bod yr ymatebion i'r mater hwn a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad yn dangos eu bod wedi ystyried hyn.

12. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn gwella'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer disgyblion ôl-16 a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan ystyried y buddsoddiad mewn adeiladau'r ysgol a'r coleg.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth (arwain, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth, a rheoli adnoddau)**

13. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi pan gynhaliodd Estyn arolygiad o'r ysgol iddynt adrodd fod y pennaeth dros dro'n cynnig arweinyddiaeth gref a gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, ac yn cael ei gefnogi gan yr uwch dîm rheoli a oedd yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Fodd bynnag, er y barnwyd bod yr arweinyddiaeth a'r gallu i weithio mewn partneriaeth yn dda, barnwyd bod gwella ansawdd a rheoli adnoddau yn foddhaol yn unig. Fel canlyniad, barn Estyn am arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn gyffredinol oedd eu bod yn foddhaol. Yn dilyn monitro'r ysgol ar ôl yr arolygiad, barnwyd bod yr ysgol heb wneud cynnydd digonol, ac felly roedd Estyn wedi cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol. Ers yr arolygiad mae'r ysgol wedi penodi pennaeth parhaol.
14. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn ei bod yn rhesymol tybio y bydd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn gwella o ystyried lefel y cymorth y mae'r ysgol yn ei chael ar ffurf her ac ymyrraeth, a chynnydd mewn gweithgarwch gan Estyn. Yn ychwanegol, heb ddarpariaeth chweched dosbarth, bydd y cynnig yn caniatáu i'r ysgol ganolbwyntio ar gynllunio a gwella safonau ar gyfer disgyblion 11-16 oed.
15. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig hefyd yn arwain at wella arweinyddiaeth a rheolaeth y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ôl-16 oed, gan y bydd sylw'r ddarpariaeth honno ar lai o sefydliadau. Bydd hefyd yn arwain at wella'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig, gan y byddai uned newydd yn sicrhau bod modd rhannu arferion a dysgu gan yr arbenigedd sydd ar gael yn Ysgol Portfield.

### **YR ANGEN AM LEOEDD A'R EFFAITH AR HYGJRCHEDD YSGOLION**

16. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn arwain at ddarpariaeth well sy'n ateb y galw yn fwy effeithiol am leoedd mewn ysgolion uwchradd yn ardal Abergwaun. Mae cyflwr yr ysgol yn wael ac mae ganddi nifer sylweddol o leoedd gwag. Bydd ailwampio'r ysgol ac estyniad newydd yn gwella'r cyflwr cyffredinol ac yn lleihau nifer y lleoedd yn yr ysgol. Ar ôl cael gwared ar y chweched dosbarth bydd nifer y disgyblion ar y gofrestr yn lleihau yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion yn y sector cynradd, yn yr ardal a wasanaethir gan Ysgol Bro Gwaun, wedi cynyddu yn ddiweddar. Bydd y disgyblion hyn yn y pen draw yn symud i Ysgol Bro Gwaun i gynyddu nifer y disgyblion. Mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd modd cynyddu maint yr ysgol pe byddai angen gwneud hynny.

17. Byddai'r myfyrwyr ôl-16 yn cynyddu'r amser teithio os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, gan y byddent yn y dyfodol yn gorfod teithio i Goleg Sir Benfro. Y pellter rhwng Abergwaun a Hwlfordd yw tua 16 milltir. Fodd bynnag, rydym yn nodi ei bod yn fwriad i fyfyrwyr ôl-16 allu parhau i ddefnyddio'r cyfleusterau yn Ysgol Bro Gwaun, gan gynnwys yr ystafelloedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn dysgu o bell, ac y gallai fod yn bosibl cyflwyno rhywfaint o'r cwricwlwm Safon Uwch yn Ysgol Bro Gwaun.

## **SICRHAU ADNODDAU ADDYSG A GOBLYGIADAU ARIANNOL ERAILL**

### **A fydd y cynigion yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddsbarthu'n decach ac yn fwy cyfartal rhwng ysgolion prif ffrwd yn ardal yr awdurdod lleol**

18. Gan y bydd y cyllid ar gyfer y dosbarth chweched dosbarth yn cael ei ailddosbarthu i ganolfan chweched dosbarth Coleg Sir Benfro, ni fydd unrhyw arbedion fel canlyniad i'r cynnig. Dylai'r coleg allu cynnig cyrsiau mewn ffordd fwy cost-effeithiol na'r ysgolion yn unigol.

19. Gan y bydd y cyllid ar gyfer y dosbarth chweched dosbarth yn cael ei ailddosbarthu i ganolfan chweched dosbarth Coleg Sir Benfro, ni fydd unrhyw arbedion fel canlyniad i'r cynnig. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn na ddylai hyn gael effaith andwyol ar gyllideb yr ysgol gan fod yr awdurdod lleol o'r farn bod y cyllid a fwriedir ar gyfer y ddarpariaeth 11-16 oed yn ariannu'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol ar hyn o bryd. Dylai'r coleg allu cynnig cyrsiau mewn ffordd fwy cost-effeithiol na'r ysgolion yn unigol. Nid yw'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd unrhyw gostau refeniw ychwanegol sy'n gysylltiedig â lleoliad y Ganolfan Adnoddau Dysgu a dosbarthiadau lloeren Ysgol Portfield yn Ysgol Bro Gwaun.

20. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd y cynnig yn cael gwared ar tua 250 o leoedd gwag yn yr ysgol uwchradd, a bydd y nifer lai o leoedd yn cyfateb yn well â'r amcanestyniadau o ran nifer y disgyblion.

### **A yw'r cynigion yn llunio rhan o raglen fuddsoddi'r awdurdod lleol ar gyfer Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, ac yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, ac at wella'r ffordd y caiff ystâd yr ysgolion ei rheoli'n strategol, drwy gael gwared ar y gwaith cynnal a chadw sy'n cronni ac ar adeiladau'r ysgol sy'n aneffeithlon neu mewn cyflwr gwael.**

21. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn y bydd y cynnig yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, a gwella'r ffordd y caiff ystâd yr ysgol ei rheoli'n strategol, gan y bydd yr awdurdod lleol yn cael gwared ar chweched dosbarth nad yw'n hyfyw, yn adnewyddu gweddill yr ysgol yn sylweddol, a bydd yn gwella'r cyfleusterau sydd ar gael i ddisgyblion drwy agor canolfan chweched dosbarth yn Hwlfordd.

### **Costau rheolaidd y cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, man lleiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael**

22. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi gan y bydd cyllid ar gyfer dosbarth chweched dosbarth yn cael ei ailddosbarthu i ganolfan chweched dosbarth Coleg Sir Benfro ni fydd unrhyw arbedion yn sgil y cynnig. Fodd bynnag, mae'n nodi bod yr awdurdod lleol o'r farn na fydd hynny'n cael effaith andwyol ar gyllideb yr ysgol, gan eu bod o'r

farn bod cyllid a fwriedir ar gyfer y ddarpariaeth 11-16 oed yn ariannu'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol ar hyn o bryd. Dylai'r coleg allu cynnig cyrsiau mewn ffordd fwy cost-effeithiol na'r ysgolion yn unigol. Nid yw'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd unrhyw gostau refeniw ychwanegol sy'n gysylltiedig â lleoliad y Ganolfan Adnoddau Dysgu a dosbarthiadau lloeren Ysgol Portfield yn Ysgol Bro Gwaun.

### **Costau teithio ychwanegol o ganlyniad i'r cynigion**

23. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol o'r farn na fydd y cynnig yn effeithio ar gostau teithio disgyblion 11-16 oed. Fodd bynnag, byddai angen i ddisgyblion ôl-16 oed yn Ysgol Bro Gwaun deithio i ganolfan chweched dosbarth Coleg Sir Benfro yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae Coleg Sir Benfro yn cynnig trafndiaeth am ddim i fyfyrwyr amser llawn. Byddai'r myfyrwyr hynny sydd angen trafndiaeth i'r Ganolfan Chweched Dosbarth yn gallu defnyddio gwasanaeth bysiau penodedig Coleg Sir Benfro.

### **Costau cyfalaf y cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael**

24. Amcangyfrifwyd mai £12.9 miliwn yw cyfanswm cost y gwaith i Ysgol Bro Gwaun. Bydd Cyngor Sir Penfro'n darparu £6.45 miliwn, ac mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais i raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ar gyfer y £6.45 miliwn sy'n weddill.
25. Amcangyfrifwyd mai £6.6 miliwn yw cyfanswm cost y gwaith yng Ngholeg Sir Benfro i ddarparu Canolfan Chweched Dosbarth, ac mae'r Coleg wedi cyflwyno cais i raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif am y £3.3 miliwn sy'n weddill.

### **Swm unrhyw arbedion net arfaethedig (gan ystyried refeniw'r ysgol, costau teithio a chostau cyfalaf)**

26. Gan y bydd y cyllid ar gyfer y dosbarth chweched dosbarth yn cael ei ailddosbarthu i ganolfan chweched dosbarth Coleg Sir Benfro, ni fydd unrhyw arbedion fel canlyniad i'r cynnig.

### **A fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffyg cyllidebol heb y cynigion**

27. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr ysgol wedi llwyddo i leihau diffyg cyllidebol y ddwy flynedd flaenorol, ac wedi mantoli'r gyllideb yn ddiraffferth yn 2014/15. Yn y dyfodol, gan na fydd yr ysgol yn gorfod cefnogi'r chweched dosbarth, gall sylw'r adnoddau gael ei roi i gyfnodau allweddol 3 a 4, ac felly mae'n fwy tebygol y bydd yr ysgol yn gallu parhau i fantoli'r gyllideb.

### **A gaiff unrhyw arbedion o ran costau rheolaidd eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol**

28. Bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio arbedion ar gyfer y gwasanaeth addysgol.

### **A fydd yr enillion (derbyniadau cyfalaf) a ddaw yn sgil gwerthu safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu i gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu'r broses o reoli lleoedd ysgolion yn effeithiol.**

29. Caiff adeiladau'r ysgol eu hymestyn a'u hadnewyddu, ond byddant yn aros ar y safle presennol, felly ni fydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu tir neu adeilad.

## **FFACTORAU CYFFREDINOL ERAILL**

### **Yr effaith a gaiff y cynigion ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd**

30. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol y gallai'r ffaith bod mwy o ddewis o gyrsiau ar gael sy'n briodol ar gyfer dysgwyr ôl-16 oed ddenu mwy o ddysgwyr i ymgymryd â rhaglen ddysgu ôl-16. Gallai hynny gael effaith gadarnhaol ar blant o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd. Gan fod Coleg Sir Benfro'n darparu trafniadaeth am ddim, ni fyddai Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i ddisgyblion o'r fath benderfynu peidio â dewis ymgymryd â'r rhaglen ddysgu.

### **Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

31. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon bod yr awdurdod lleol wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, ac na fydd unrhyw effaith andwyol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir.

### **Asesiad o'r effaith ar y gymuned**

32. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â chanlyniadau'r awdurdod lleol na fydd y cynnig yn cael fawr ddim o effaith ar y gymuned.

## **FFACTORAU PENODOL I'W HYSTYRIED YN ACHOS CYNIGION I AD-DREFNU YSGOLION UWCHRADD NEU YCHWANEGU/DILEU CHWECHED DOSBARTH**

### **A fydd y cynigion yn arwain at wella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiant unigolion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond yn iau na 19 oed**

33. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol sydd o'r farn y bydd y cynnig yn arwain at wella cyraeddiadau addysgol neu hyfforddi disgyblion ôl-16 oed, gan fod darpariaeth fwy ar gyfer chweched dosbarth yn cynnig mwy o ddewis o gyrsiau, ac yn eu barn yn arwain at lefelau cyrhaeddiad uwch.

### **A fydd y cynigion yn cyfrannu at ystod briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol, a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel sydd wedi'u seilio ar wybodaeth gan gyflogwyr ac sy'n targedu disgyblion o bob gallu, gan gynnal cyrsiau TGAU, Safon UG/Uwch a chyrsiau sefydledig eraill, yn unol â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed.**

34. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol bod Ysgol Bro Gwaun yn annhebygol o gynnal yr amrywiaeth o gyrsiau ôl-16, nac ychwaith yr ansawdd, sydd eu hangen i fodloni Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 oherwydd y nifer isel o ddisgyblion ar y gofrestr. Er i Estyn ganfod bod yr ysgolion hynny sy'n bartneriaid fel rhan o Ffederasiwn Gogledd Sir Benfro yn gallu cynnig nifer addas ac amrywiol o opsiynau ôl-16 i fodloni'r gofynion statudol, prin iawn oedd nifer y disgyblion a oedd yn dechrau cyrsiau a gynigiwyd mewn sefydliadau eraill.

35. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon y bydd Coleg Sir Benfro yn darparu'r amrywiaeth o gyrsiau a'r safon sydd eu hangen i fodloni Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

**A yw'r cynigion yn debygol gynyddu nifer y disgyblion sy'n parhau i ddysgu ar ôl oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion a chostau cludiant i'r dysgwr ac eraill, a ellir fforddio'r costau hynny, ac a fydd dysgwyr yn barod i deithio**

36. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod cynyddu nifer y cyrsiau yn debygol o gynyddu nifer y disgyblion sydd am ymgymryd â chysiau dysgu ar ôl oedran ysgol gorfodol. Nid oes unrhyw reswm gan Ysgrifennydd y Cabinet i anghytuno â'r awdurdod lleol, gan y bydd y cynnig yn darparu mwy o gyfleoedd a dewisiadau. Mae'n bosibl y bydd polisi Coleg Sir Benfro i ddarparu trafndiaeth am ddim i fyfyrwyr amser llawn yn lleihau amharodrwydd rhai disgyblion ôl-16 oed i ymgymryd â chysiau Safon Uwch a rhai galwedigaethol mewn lleoliad sydd gryn bellter o'u hysgol. Gallai'r bwriad i gynnig rhai cyrsiau dysgu o bell ar safleoedd presennol yr ysgol annog mwy o ddisgyblion i wneud cyrsiau ôl-16 oed hefyd. Dylid sicrhau bod disgyblion yn cael eu hannog i ymgymryd â chysiau ôl-16 tra bo'r ddarpariaeth hon ar gael.

**I ba raddau y mae'r cynigion yn cyfrannu at yr agenda 14-19 gan ystyried barn rhwydweithiau 14-19 lleol a phartneriaethau dysgu**

37. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn ei bod yn debygol y bydd y cynnig yn cyfrannu at yr agenda 14-19 oed drwy wella profiad addysgol myfyrwyr ôl-16 oed. Er bod yr ysgolion yng nghanolbarth a gogledd Sir Benfro yn cydweithredu â'i gilydd ac â Choleg Sir Benfro ar hyn o bryd i ddarparu cyrsiau safon uwch a rhai galwedigaethol, prin iawn yw nifer y disgyblion sy'n manteisio i'r eithaf ar y trefniant hwn i astudio cyrsiau mewn ysgolion eraill. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol nad yw'r chwech dosbarth bach yn Ysgol Bro Gwaun ac yn Ysgol Dewi Sant yn gynaliadwy, ac y bydd yr hyn sydd i bob pwrpas yn golygu uno'r ddau chweched dosbarth yng Nghanolfan Chweched Dosbarth Coleg Sir Benfro yn creu darpariaeth mwy ymarferol a chynaliadwy ar gyfer dysgwyr ôl-16 oed.

**Effaith y cynigion ar ddarpariaeth 11-16 oed mewn ysgolion**

38. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol y gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth 11-16 oed yn Ysgol Bro Gwaun, gan na fydd y gyllideb ar gyfer cyfnodau allweddol 3 a 4 o hynny allan yn ariannu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 oed. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynd i Ysgol Bro Gwaun yn gostwng yn y lle cyntaf, ond bydd nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd yn cynyddu ac y byddant yn trosglwyddo i'r ysgol maes o law. Er bod Ysgol Bro Gwaun yn ysgol fach, a bydd yn parhau i fod yn un fach, mae'n rhesymol tybio ei bod yn annhebygol y bydd yn anymarferol ei chynnal yn y dyfodol agos.

**Sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn darparu darpariaeth ôl-16 oed safonol, gan gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion, sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddi preifat**

39. Yr hyn sy'n gyffredin i'r cynigion i ddod â'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Bro Gwaun i ben, cau Ysgol Dewi Sant, Ysgol Bro Dewi, Ysgol Gymunedol Solfach a sefydlu ysgol i ddisgyblion 3-16 oed, yw'r ffaith y cynnigir y byddai Coleg Sir Benfro yn cynnig yr holl gyrsiau Safon Uwch a rhai galwedigaethol yn y dyfodol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol o ran po fwyaf y nifer o fyfyrwyr sy'n mynd i'r Ganolfan Chweched Dosbarth, mwyaf y bydd yn hyfyw ac yn gynaliadwy. Ac i gael Canolfan Chweched Dosbarth sy'n hyfyw ochr yn ochr â

darpariaeth colegau, byddai angen uno'r chweched dosbarth yn Abergwaun a Thyddewi o leiaf.

**Sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 lleol a'r ardal ehangach, neu'r gwaith i'w wella, a hyrwyddo mynediad i gyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn addysg ôl-16**

40. Byddai categori iaith Ysgol Bro Gwaun yn parhau i fod yn "gyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg" yn dilyn rhoi'r cynnig ar waith. Felly, o ran addysg Gymraeg, bydd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn parhau i gael darpariaeth gyfatebol.

41. Ar hyn o bryd, Ysgol y Preseli yw'r unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro, ac mae'n darparu i ddisgyblion 11-18 oed. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi cymeradwyo cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-16 oed yn Hwlfordd. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i ystyried y ddarpariaeth ôl-16 pan fydd tystiolaeth bod digon o alw. Rydym wedi cael cyngor gan swyddogion yn yr awdurdod lleol y gallai disgyblion sydd am gael addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg fynd i Ysgol y Preseli.

42. Roedd Estyn wedi nodi bod perygl posibl y byddai disgyblion yn dewis cael addysg ôl-16 yng Nghanolfan Chweched Dosbarth Coleg Sir Benfro oherwydd yr amrywiaeth o gyrsiau a fydd ar gael, yn hytrach na mynd i Ysgol y Preseli. Gallai'r ail ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gynyddu'r galw am ddarpariaeth Gymraeg ôl-16, a gellid cynyddu nifer y cyrsiau sydd ar gael wrth iddynt gael eu barnu i fod yn fwy hyfyw i'w cynnal.

43. Nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg Sir Benfro, ac nid yw'r cynnig a gyhoeddir yn cynnwys bwriad i newid hynny. Bydd Coleg Sir Benfro a'r pwyllgor arfaethedig ar gyfer Safon Uwch yn gyfrifol am y cyrsiau a ddarperir yn y Ganolfan Chweched Dosbarth. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn ei bod yn ddisgwyliad rhesymol i Goleg Sir Benfro a'r pwyllgor ar gyfer Safon Uwch ystyried darparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd tystiolaeth bod digon o alw.

**I ba raddau y bydd y cynigion yn cynnig manteision ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â'r sefyllfa bresennol ac opsiynau posibl eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16**

44. Prin iawn yw'r dystiolaeth, neu nid oes tystiolaeth o gwbl, bod y cydweithredu presennol yn sicrhau bod disgyblion yn cael dewis eang o wahanol bynciau, gan gynnwys opsiynau galwedigaethol. Fel rhan o'r cynnig, byddai myfyrwyr Coleg Sir Benfro yn cael cyfleusterau newydd a gwell a gallu dewis o ystod eang o gyrsiau Safon Uwch a rhai galwedigaethol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon y byddai myfyrwyr ôl-16 oed yn elwa ar y cyfleusterau gwell, ac yn gallu astudio ystod ehangach o gyrsiau.

45. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi mai'r bwriad yw y byddai myfyrwyr ôl-16 yn gallu defnyddio'r cyfleusterau yn Ysgol Bro Gwaun o hyd, gan gynnwys yr ystafelloedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, er mwyn dysgu o bell, ac y gallai fod yn bosibl cyflwyno rhywfaint o'r cwricwlwm safon uwch o Ysgol Bro Gwaun.

**Sut y gallai'r cynigion effeithio ar y ddarpariaeth ddewisol o ran cludiant y gallai awdurdod lleol ei chynnig i ddysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol**



46. Byddai angen i'r disgyblion ôl-16 oed yn Ysgol Bro Gwaun deithio i ganolfan chweched dosbarth Coleg Sir Benfro yn y dyfodol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod Coleg Sir Benfro yn darparu trafndiaeth am ddim i fyfyrwyr amser llawn. Byddai'r myfyrwyr hynny sydd angen trafndiaeth i'r Ganolfan Chweched Dosbarth yn gallu defnyddio gwasanaeth bysiau penodedig Coleg Sir Benfro.

### **Ffactorau penodol i'w hystyried yn achos cynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol**

47. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn gwella ac yn ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 11-16 oed ag anghenion dysgu ychwanegol yn ardal Abergwaun. Ar hyn o bryd, mae gan Ysgol Bro Gwaun ganolfan adnoddau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a chymhleth. Bydd y cynnig yn sicrhau bod cyfleusterau gwell ar gael mewn adeilad newydd i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sef canolfan adnoddau dysgu ac uned ar gyfer dosbarthiadau lloeren Ysgol Portfield wedi'u lleoli yn Ysgol Bro Gwaun. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol bod yr uned ar gyfer dosbarthiadau lloeren a'r ganolfan adnoddau dysgu yn debygol o sicrhau darpariaeth ddi-dor a gwella cyfleoedd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i gael eu cynnwys yn yr amgylchedd prif ffrwd, ac ar yr un pryd yn bodloni anghenion dysgu, emosiynol a chymdeithasol unigol plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth penodol.

### **FFACTORAU YCHWANEGOL I'W HYSTYRIED WRTH GYMERADWYO NEU BENDERFYNU AR GYNIGION YN YMWNEUD Â THREFNIADAETH YSGOLION**

#### **A oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill**

48. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried bod y cynigion i ddod â'r ddarpariaeth chweched dosbarth i ben yn Ysgol Bro Gwaun, cau Ysgol Dewi Sant, Ysgol Bro Dewi, Ysgol Gymunedol Solfach a sefydlu ysgol 3-16 oed, yn gysylltiedig am y rhesymau a amlinellir yn y paragraffau uchod. Felly, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ystyried y cynigion hyn gyda'i gilydd.

#### **A yw'r ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â'r Cod**

49. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â'r Cod.

50. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon bod yr asesiadau angenrheidiol o'r effaith wedi'u cynnal a'u bod ar gael i'r cyhoedd. Mae'n cytuno â'r awdurdod lleol na ddylid cael unrhyw effeithiau andwyol ar grwpiau â nodweddion a warchodir.

#### **A yw'r cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod, ac a yw'r hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol**

51. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon bod yr awdurdod wedi cydymffurfio â'r gofynion cyhoeddi.

#### **Ystyried y gwrthwynebiadau ac ymatebion yr awdurdod lleol i'r gwrthwynebiadau**

52. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau statudol i'r cynnig hwn.

53. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig ar sail y ffaith y bydd:

- yn debygol o gynnal neu wella safon y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion ôl-16 oed;
- yn cynnig dewis ehangach i bobl ifanc o ran darpariaeth ôl-16 oed ar un safle;
- yn darparu cyfleusterau gwell i ddisgyblion ôl-16 oed;
- yn cyfrannu at nodau Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 drwy gryfhau darpariaeth gynaliadwy;
- yn caniatáu i Ysgol Bro Gwaun roi sylw i gynnal a gwella'r safonau ar gyfer disgyblion 11-16 oed;
- yn debygol o wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion perthnasol;
- yn debygol o hyrwyddo bod disgyblion perthnasol yn cael eu cynnwys fwy a sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu rhwng ysgolion ac unedau arbennig i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac ysgolion prif ffrwd;
- yn darparu digon o leoedd ysgol ac yn lleihau'r costau sydd ynghlwm wrth gynnal adeiladau ysgol sy'n rhy fawr.

54. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod bwriad i weithredu'r cynnig hwn o 1 Medi 2018 ymlaen, ac o'r dyddiad hwnnw ymlaen ni fydd disgyblion Ysgol Bro Gwaun yn gallu symud i'r chweched dosbarth. Pan fydd y cynnig hwn wedi'i roi ar waith, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu sefydlu a bod cyn lleied o aflonyddwch ag y bo modd wrth drosglwyddo'r disgyblion. Dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion pan fydd y cynnig hwn wedi'i roi mewn grym.

55. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weithredwr Cyngor Sir Penfro.

Yn gywir

**STEVE VINCENT**

**DIRPRWY GYFARWYDDWR: YR IS-ADRAN EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION**